

Cofnodion Cyfarfod Gweithgor Gilfach Iago a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Fawr, Llandybïe ar ddydd Mawrth, Mawrth 7^{fed} 2017 am 6yh

Presennol

Cynghorwyr	P.H. Roberts	Mrs S. E. Thomas	A. Davies
	N. Evans	A.P Cooper	I. Rh. Llewelyn

1363.

Safle Glo Brig Gilfach Iago

Parthed â Chofnod 1313 – Cyflwyniad gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar Gilfach Iago – roedd y cyfarfod hwn wedi'i drefnu gyda Rob Thompson, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Celtic Energy, i ddiweddarau'r Aelodau o'u cynnig i setlo'r mater hwn sydd wedi bod ar y gweill ers hir amser. Roedd Steve Murphy, Cyfreithiwr Hŷn gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, hefyd yn bresennol.

Roedd yr Aelodau am atgoffa Mr Thompson bod Celtic Energy wedi torri'u gair ynghylch eu cynlluniau cychwynnol i adfer yr heolydd, y llwybrau troed a'r llwybrau ceffyl a bod Ymchwiliad Cyhoeddus hefyd wedi dod i'r casgliad y dylid adfer y cyfan. Doedd dim o'r gwaith wedi'i wneud a mynegwyd consyrn bod y llwybrau, yn swyddogol, yn dal ar agor ond eu bod yn achosi cryn berygl i'r cyhoedd.

Cadarnhaodd Mr Thompson bod cynnig Celtic Energy yn cynnwys adfer yr holl llwybrau troed a llwybrau ceffyl, ac yn cynnwys adeiladu llwybrau ceffyl newydd, ac roedd y cynnig ariannol o £175,000 yn dal yn ddilys. Maen nhw hefyd yn barod i gynnig darn o dir ynghanol Gilfach Iago i'r Cyngor Cymuned, ond roedd yr Aelodau yn amau a fyddai hyn yn debyg o fod yn fwy o atebolrwydd yn y pen draw o ran cynnal a chadw. Yn gyfnewid am hyn, ni fyddai'r heolydd yn cael eu hail-adeiladu.

Awgrymodd yr Aelodau y gellid ystyried bod llwybr beicio yn cysylltu â llwybr beicio Cwm Gwendraeth a llwybr beicio Bannau Brycheiniog, i redeg ar hyd un o'r llwybrau ceffyl, gyda'r arwyneb wedi'i uwchraddio i gyflwr yn addas i seiclwyr. Tra'n cydnabod bod Celtic Energy wedi gwneud camgymeriadau ac wedi ffaelu i gadw at y cytundeb gwreiddiol i adfer yr heol, roedd yr Aelodau yn cydnabod bod rhaid cyfaddawdu a dylid dod o hyd i ddatrysiad sy'n rhesymol a theg i'r ddau barti. Cytunodd Steve Murphy a Rob Thompson ill dau i archwilio'r cyfle posibl bod Sustrans yn cymryd diddordeb yn y llwybr seiclo, ac i wneud ymholiadau am unrhyw gyllid grant a fyddai, o bosibl, ar gael i'r Cyngor Cymuned.

Cytunodd Mr Thompson i ail-ystyried y cynigion ac i'w trafod gyda Bwrdd Celtic Energy, a fydd yn cyfarfod am y tro nesaf ym mis Mai 2107. Dywedodd eu bod yn awyddus i setlo'r mater hwn, gan ei fod yn dal yn atebolrwydd ar Fantolen y cwmni.

Cytunwyd cynnal cyfarfod pellach i ddiweddarau'r Aelodau ar Fehefin 20^{fed} 2017 am 6yh yn Siambr y Cyngor.

1364.

Gan nad oedd unrhyw fater arall i'w drafod, daeth y cyfarfod i ben am 7 yh.